# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Angladdau a Phrofedigaeth

# Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol

# 2021-22

# *DRAFFT*

## Aelodau'r Grŵp

**Aelodau o'r Senedd**

- Mark Isherwood AS
- Mike Hedges AS
- Jane Dodds AS
- Russell George AS
- Darren Millar AS
- Llyr Gruffydd AS
- Altaf Hussain AS

**Aelodau allanol**

Mae aelodaeth y grŵp trawsbleidiol wedi ehangu i gynnwys ystod eang o sefydliadau sy'n canolbwyntio ar brofedigaeth a chynrychiolwyr y sector angladdau. Mae'r sefydliadau hyn yn cynnwys:

- Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau (NAFD)
- Y Gymdeithas Trefnwyr Angladdau Perthynol ac Annibynnol (SAIF)
- Golden Charter
- Cyngor Caerdydd
- Tŷ Hafan
- Hosbis Dewi Sant
- Care for the Family
- Cruse Cymru
- 2 Wish Upon A Star
- O'Driscoll & Daughters
- Marie Curie
- Cytûn - Eglwysi ynghyd yng Nghymru
- PR Blatchly & Son
- White Rose Funerals
- Tovey and Sons
- Gwilym Price

## Deiliaid Swyddi

Mark Isherwood AS (Cadeirydd) – etholwyd ym mis Gorffennaf 2021

Deborah Smith, Wordsmith Communication UK Limited (Ysgrifennydd) – etholwyd ym mis Gorffennaf 2021

## Cyfarfodydd a gynhaliwyd gan y grŵp

Mae'r grŵp trawsbleidiol wedi cyfarfod deirgwaith yn y cyfnod rhwng 5 Gorffennaf 2021 a 9 Mehefin 2022 (dyddiad Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2022).

Gellir crynhoi'r cyfarfodydd hyn fel a ganlyn:

**5 Gorffennaf 2021**

Cafodd Mark Isherwood ei ethol yn Gadeirydd y grŵp a chafodd Deborah Smith o Wordsmith Communication ei hethol yn Ysgrifennydd.

Cafodd y grŵp y wybodaeth ddiweddaraf am faterion ynghylch COVID-19, gan ganolbwyntio ar y bwriad i lacio'r cyfyngiadau terfynol yng Nghymru ac ar faterion ynghylch presenoldeb mewn angladdau a gofalu am y meirw.

Bu'r grŵp hefyd yn trafod materion sy'n gysylltiedig â chyhoeddi Gorchymyn Ymchwiliad i'r Farchnad Angladdau yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd 2021 ym mis Mehefin 2021, sy'n cyflwyno system reoleiddio statudol ar gyfer holl drefnwyr angladdau yn y DU, a chyhoeddi rheolau ac amserlen gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ar gyfer rheoleiddio'r ffordd y caiff cynlluniau angladd eu gwerthu yn y DU.

Cyhoeddwyd Adroddiad Gwaddol a oedd yn crynhoi'r themâu allweddol y ceisiodd y grŵp ymdrin â nhw yn ystod y Senedd ddiwethaf a chafwyd trafodaeth ar y themâu a'r pynciau ychwanegol yr hoffai'r grŵp eu cynnwys ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. Roedd y pynciau hyn yn cynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol ac ailddefnyddio beddau yng Nghymru.

**23 Medi 2021**

Yn ystod y cyfarfod ym mis Medi, cafwyd trafodaeth am yr heriau a wynebir o ran cadw cofnodion wrth brynu beddau, yn enwedig pan fwriedir iddynt fod ar gyfer mwy nag un person ymadawedig. Cafwyd cyflwyniad gan Jon Cross, o'r Grŵp Stiwardiaeth Amgylcheddol, sef prosiect ar y cyd rhwng awdurdodau claddu ac amlosgi a chwmni preifat (CDS Group), ar y rôl sydd gan y sector angladdau a phrofedigaeth i'w chwarae i helpu i gyrraedd targedau cynaliadwyedd y DU.

Hefyd, cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf am COVID-19, yn ogystal ag am y camau gorfodi mewn perthynas â Gorchymyn Marchnad Angladdau yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a'r camau gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol i reoleiddio cynlluniau angladd. Hefyd, cafodd y grŵp trawsbleidiol diweddariad gan swyddogion Cruse Cymru ynghylch Fframwaith Profedigaeth Cymru.

**20 Ionawr 2022**

Cafwyd adroddiad gan Mark Isherwood AS ar gyfarfod y Grŵp Hollbleidiol ar Angladdau a Phrofedigaeth yn San Steffan, lle trafodwyd cynnig i sefydlu gweithgor trawsadrannol i gydgysylltu'n well y trafodaethau ar faterion ynghylch angladdau a phrofedigaeth o fewn y Llywodraeth, yn ogystal â'r camau i gydnabod y sector fel Ymatebwyr Categori 2 yn y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl a'r ymgyrch i ailddefnyddio beddau.

Hefyd, tynnodd Mark Isherwood sylw at y diffyg cyfathrebu ynghylch cymorth profedigaeth hygyrch ymhlith grwpiau ffydd a grwpiau lleiafrifol penodol, sy'n fater a drafodwyd yng nghyfarfodydd blaenorol y grŵp trawsbleidiol.

Rhoddodd Dr Emily Harrop, ymchwilydd ym Mhrifysgol Caerdydd sy'n gweithio ym maes gofal lliniarol, gyda chefndir yn y gwyddorau cymdeithasol, y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am y prosiect ar y cyd rhwng Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Bryste i ymchwilio i brofiadau o brofedigaeth yn ystod COVID-19.

Cafwyd trafodaeth ar Fframwaith Profedigaeth Cenedlaethol Cymru a'r Gronfa Gymorth Profedigaeth, gwerth £1 miliwn, dan arweiniad Cruse Cymru, yn ogystal â diweddariad ynghylch ymdrechion Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau i ddiogelu'r hawddfreintiau buddiol mewn perthynas â'r prosesau cofrestru marwolaethau a gyflwynwyd yn y Ddeddf Coronafeirws.

Hefyd, dychwelodd y grŵp at y camau gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol i reoleiddio cynlluniau angladd, gan drafod y goblygiadau i ddefnyddwyr yn sgil methiant cwmni cynlluniau angladd i sicrhau awdurdodiad.

**9 Mehefin 2022**

Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar ddechrau'r cyfarfod hwn. Cafodd Mark Isherwood AS ei ail-ethol yn Gadeirydd a chafodd Deborah Smith ei hail-ethol yn Ysgrifennydd.

Hefyd, cafodd y grŵp gyflwyniad gan y Sefydliad Safonau Angladdau Annibynnol, a sefydlwyd i gymryd drosodd y gwaith o arolygu a monitro safonau cwmnïau sy'n aelodau o Gymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau, ond sy'n gweithredu'n annibynnol ar y Gymdeithas.

Dychwelodd y grŵp at y mater o ailddefnyddio beddau yng Nghymru, ac roedd arolwg eisoes wedi'i ddosbarthu i gasglu barn aelodau'r grŵp ar y mater hwn – yn ogystal â barn sefydliadau profedigaeth, sefydliadau ffydd a chred a sefydliadau cymunedol. Cafwyd trafodaeth am y trefniadau sydd ar y gweill i reoleiddio cynlluniau angladd a'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfod yn ymwneud ag ystyriaethau ffydd a chred fel rhan o Fframwaith Profedigaeth Llywodraeth Cymru.

Y nod oedd sicrhau bod ffydd a chred yn fwy canolog i Fframwaith Profedigaeth Llywodraeth Cymru a sicrhau bod pob cymuned yn gallu cael mynediad at wasanaethau ar adeg profedigaeth, a bod yr unigolion sy'n darparu'r gwasanaethau hyn yn deall anghenion penodol pob cymuned hefyd.

## Cyfarfodydd a gynhaliwyd â lobïwyr proffesiynol, sefydliadau gwirfoddol neu sefydliadau elusennol

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2021 a 9 Mehefin 2022, cynhaliodd y grŵp gyfarfodydd â'r sefydliadau a ganlyn, neu fe wahoddwyd cyflwyniadau gan y sefydliadau hyn:

- JBP Consultants (San Steffan, ysgrifenyddiaeth y Grŵp Hollbleidiol ar Angladdau a Phrofedigaeth) i glywed safbwyntiau ar ailddefnyddio beddau yng Nghymru (Cyfarfod rhithwir, Ebrill 2022);
- Jon Cross, y Grŵp Stiwardiaeth Amgylcheddol, ynghylch cynaliadwyedd yn y sector angladdau (cyfarfod mis Medi 2021);
- Brevia Consulting (yn dod i gyfarfodydd y grŵp trawsbleidiol o bryd i'w gilydd ar ran Cruse Cymru);
- Mae sefydliadau elusennol, grwpiau gwirfoddol a sefydliadau cynrychioliadol (a restrir yn adran gyntaf yr adroddiad hwn) yn dod i gyfarfodydd y grŵp trawsbleidiol.

## Datganiad Ariannol Blynyddol

### Treuliau

Mae'r treuliau a ganlyn yn berthnasol i'r cyfnod rhwng 5 Gorffennaf 2021 a 9 Mehefin 2022:

- Ffioedd o £2,911.25 am wasanaethau'r Ysgrifenyddiaeth, wedi'u talu i Wordsmith Communication UK Limited a'u hariannu gan Gymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau;
- Ffi o £71.74 + TAW (cyfraniad 50 y cant) ar gyfer gwasanaeth cyfarfod rhithwir Zoom, wedi'i thalu drwy Wordsmith Communication UK Limited a'i hariannu gan Gymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau.

**Buddion**

Caiff costau ysgrifenyddiaeth a chyfarfodydd y grŵp eu hariannu gan Gymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau.

**Lletygarwch a gafwyd**

Gwahoddwyd Mark Isherwood AS (y Cadeirydd) i wneud araith i agor cynhadledd Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau yng Nghasnewydd ar 7 Mai 2022. Cafodd lluniaeth (te/coffi) ei ddarparu.

Mae pob ymgysylltiad arall wedi digwydd yn rhithwir.